

# Cyflwyno'r newyddion: Diwteriwm metelig sy'n cael ei ffurfio ar wasgedd uchel

## Cyflwyniad

Mewn grwpiau o dri neu bedwar, byddwch yn cyflwyno'r newyddion am y gwaith ymchwil gwyddoniaeth rydych chi wedi darllen amdano. Bydd eich grŵp yn cael pum munud ar gyfer y cyflwyniad. Bydd pob person yn y grŵp yn cael un o'r rolau hyn:

- Cyflwynydd newyddion – cyflwyno'r stori a dod â'r cyflwyniad i ben. Mae'r cyflwynydd newyddion hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y cyflwyniad yn gorffen yn brydlon.
- Gohebydd – cyfweld â'r gwyddonydd/gwyddonwyr am yr ymchwil a gofyn cwestiynau a fydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa.
- Gwyddonydd – ateb y cwestiynau, er mwyn i'r gynulleidfa ddeall y wyddoniaeth yn y stori. Os ydych mewn grŵp o bedwar, bydd gennych fwy nag un gwyddonydd.

## Cyfarwyddiadau

Gweithiwch gyda'ch gilydd i baratoi'r hyn rydych chi'n mynd i'w ddweud fel grŵp yn ystod eich cyflwyniad. Mae'n bwysig bod gan bawb rywbeth i'w ddweud. Ymarferwch eich cyflwyniad. Oedd y cyflwyniad yn rhy gyflym, neu'n rhy araf? Beth sydd angen i chi ei addasu er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn para pum munud?

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys y termau: metelig, gwasgedd ac uwchddargludydd yn eich cyflwyniad. Faint o eiriau gwyddonol eraill allwch chi eu cynnwys?

## Cynghorion

- Defnyddiwch y templed sgrïpt ar y dudalen nesaf i'ch helpu.
- Darllenwch eich atebion i gam 6 ar y daflen waith. Bydd y rhain yn eich helpu chi hefyd.
- Gallwch hefyd ddefnyddio sleidiau gyda diagramau neu ddelweddau eraill i helpu eich cynulleidfa i ddeall y wyddoniaeth yn y stori. Cofiwch nodi ar eich sgrïpt pryd i ddangos y sleidiau i'r gynulleidfa.

Rôl	Beth i'w gyfathrebu	Eich sgrïpt
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch y darganfyddiad mewn un frawddeg.	
Cyflwynydd newyddion	Eglurwch pam gallai'r darganfyddiad hwn fod yn bwysig.	
Cyflwynydd newyddion	Cyflwynwch eich cyddysgwr sy'n ohebydd ac a fydd yn rhoi rhagor o wybodaeth.	
Gohebydd	Yn gryno, eglurwch y cyddestun – y gwahaniaeth rhwng metelau ac anfetelau, a'r hyn mae'r gwyddonwyr wedi'i wneud.	
Gohebydd	Mewn un frawddeg, cyflwynwch y gwyddonydd/gwyddonwyr a pham eich bod yn eu cyfweld.	
Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd ddisgrifio'r hyn a wnaeth.	
Gwyddonydd	Atebwch y cwestiwn cyntaf.	
Gohebydd	Gofynnwch pam mae gallu gwneud i ddiwteriwm weithredu fel metel yn bwysig neu'n ddefnyddiol.	
Gwyddonydd	Atebwch y cwestiwn.	

Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd egluro mwy o'r cefndir.	
Gwyddonydd	Atebwch y cwestiwn.	
Gohebydd	Gofynnwch i'r gwyddonydd i ble mae angen i'r ymchwil fynd nesaf.	
Gwyddonydd	Dywedwch wrth y gohebydd beth arall sydd angen ei wneud neu ei ddarganfod er mwyn symud yn nes at sefyllfa lle mae'r darganfyddiad hwn yn cael effaith go iawn ar bobl.	
Gohebydd	Diolchwch i'r gwyddonydd.	
Gwyddonydd	Cydnabyddwch y diolch.	
Cyflwynydd newyddion	Dywedwch rywbeth i ymateb i'r hyn y mae'r gwyddonydd a'r gohebydd wedi'i ddweud, sy'n adlewyrchu'r hyn y gallai eich cynulleidfa fod yn ei feddwl. Diolchwch i'r gohebydd. Bydd hyn yn dod â'r cyflwyniad i ben.	

Llenwch y daflen adborth isod tra bydd eich cyd-ddysgwyr yn rhoi eu cyflwyniadau.

Rôl	Grŵp 1	Grŵp 2	Grŵp 3	Grŵp 4	Grŵp 5
A wnaeth pawb yn y grŵp siarad am y newyddion gwyddoniaeth?					
Oedd hi'n amlwg beth oedd rôl pob person?					
A wnaeth y grŵp gadw at eu terfyn amser?					
Oedd hi'n amlwg beth oedd y newyddion a pham y dylai fod yn bwysig i bobl?					
Beth gallai'r grwpiau ei wella, pe byddem yn gwneud y dasg hon eto?					